Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Gofal Plant Cwtch Childcare – Pentrebaen**

**Ysgol Gymraeg Coed-y-gof**
**Beechley Drive**
**Caerdydd**
**CF5 3SG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

16/05/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Gofal Plant Cwtch Childcare – Pentrebaen

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cwtch Childcare & Nurseries Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 33 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 19 Hydref 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn teimlo'n hyderus y bydd y staff yn parchu eu dewisiadau a'u hanghenion ac yn gweithredu arnynt. Ar y cyfan, mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol iawn. Maent yn mwynhau eu profiadau chwarae, ac mae eu sgiliau annibyniaeth yn datblygu'n dda.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n addas. Maent yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'r plant. Mae'r staff yn arsylwi ar ddysgu'r plant ac yn ei asesu, gan nodi'r camau datblygiadol nesaf.

Mae'r safle yn groesawgar, yn ysgogol ac yn hygyrch i bawb. Mae gan yr arweinwyr fesurau effeithiol a chynhwysfawr ar waith i hybu lles y plant, diwallu eu hanghenion a'u cadw'n ddiogel. Maent yn sicrhau bod pob plentyn yn gallu defnyddio amrywiaeth ardderchog a helaeth o adnoddau a theganau sy'n briodol i'w hoedran a'u cam datblygu yn hawdd, er mwyn cynyddu eu hannibyniaeth a'u chwilfrydedd.

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth gref ar gyfer y lleoliad, y maent yn ei rhannu ag eraill. Maent yn cynnal ac yn rhannu polisïau a gweithdrefnau cyfredol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau y caiff y Gymraeg ei hyrwyddo. Mae'r arweinwyr yn rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) am ddigwyddiadau o bwys weithiau. Maent yn cynnal hunanwerthusiadau ystyrlon yn effeithiol ac yn pennu targedau a gwelliannau ar gyfer rhedeg y lleoliad yn y dyfodol. Ar y cyfan, mae'r partneriaethau yn addas.

| Llesiant | Da |
|---|---|

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn cyrraedd yn hapus ac yn setlo'n gyflym, gan chwarae â'r adnoddau sydd ar gael yn hawdd ac yn hyderus. Mae'r plant yn teimlo'n falch o'u cyflawniadau. Maent yn gwenu o glust i glust pan fydd y staff yn dweud wrthynt eu bod yn brwsio eu dannedd yn dda iawn. Wrth gael eu casglu o'r ysgol, gwnaeth y plant gyfarch yr aelod o'r staff a wnaeth eu casglu yn hapus ac roeddent yn edrych ymlaen at weld eu ffrindiau yn y lleoliad.

Mae gan y plant lais cryf. Maent yn dewis ble i eistedd yn ystod amser cinio. Mae'r plant nad ydynt am eistedd wrth y bwrdd yn parhau i chwarae ag adnoddau o'u dewis, ac mae hyn yn cael ei barchu gan y staff. Mae'r plant yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt. Er enghraifft, maent yn gofyn am ragor o fwyd yn ystod amser cinio, ac mae'r staff yn gweithredu ar hyn yn brydlon. Maent yn symud yn rhydd ac yn hyderus o amgylch yr ardaloedd dan do ac awyr agored. Er enghraifft, maent yn rhedeg i chwarae yn yr ardal adeiladu a gyda'r beiciau. Dan do, maent yn dewis chwarae â chynhwysion pobi ‘bywyd go iawn’.

Ar y cyfan, mae'r plant yn rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol. Caiff y plant eu cysuro gan y staff. Er enghraifft, cânt faldod ar ôl syrthio, ac mae'r plant eraill yn dangos empathi tuag at ei gilydd drwy gynnig maldod gofalgar i'r plentyn sydd wedi anafu hefyd. Mae'r plant yn gwrando ar ysgogiadau gan y staff i ddangos moesau a chwrteisi. Maent yn dweud ‘os gwelwch yn dda’ a ‘diolch’ yn ystod amser bwyd. Mae'r plant yn rhannu adnoddau yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn rhannu cynhwysion gwahanol i wneud cacennau gyda thoes chwarae, cnau coco, blawd, dŵr, a bwydydd eraill sydd ar gael. Mae'r plant yn gwrando ar gyfarwyddiadau'r staff. Maent yn gwrando pan ddywedir wrthynt am beidio â thaflu adnoddau chwarae yn yr awyr agored, a phan gânt eu hatgoffa i fod yn ofalus wrth ddringo.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu. Maent yn rhedeg yn gyffrous o amgylch y cloddiau a'r coed ac yn ymgolli'n llwyr yn eu chwarae yn yr awyr agored, ni waeth beth fo'r tywydd. Mae'r plant yn chwilio'n frwdfrydig am drychfilod bach, yn archwilio'r ardal celf a chrefft, yn mwynhau adeiladu ac yn reidio'r beiciau yn yr awyr agored. Mae'r plant yn gallu canolbwyntio'n dda am gyfnod da o amser. Er enghraifft, maent yn cymryd rhan yn stori 'The Gruffalo' sy'n cael ei hadrodd gan y staff yn llawn cyffro. Maent yn mwynhau chwarae rôl yn yr awyr agored lle maent yn esgus gwibio i'r gofod gyda'r jygiau a'r adnoddau'r gegin fwd, tra bod eraill yn mwynhau gwneud cacennau mwd a chawl yn yr ardal hon.

Mae annibyniaeth y plant yn datblygu'n dda. Maent yn gwisgo eu welintons eu hunain ac yn mwynhau'r amgylchedd chwarae rhydd dan do ac yn yr awyr agored. Yn ystod amser cinio, maent yn defnyddio cyllyll a ffyrc dur gloyw, llestri, a gwydr. Maent yn dychwelyd eu llestri i'r bwrdd y tu allan i'r gegin ar ôl iddynt orffen. Mae'r plant yn ddysgwyr annibynnol ac yn

symud adnoddau'n hyderus o un ardal i'r llall. Maent yn datblygu sgiliau corfforol a chreadigol da ac yn ddysgwyr chwilfrydig iawn.

## Gofal a Datblygiad **Da**

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael cyfle i frwsio eu dannedd mewn ffordd hylan. Mae'r bwyd sydd ar gael i'r plant yn iach ac yn faethlon. Ar ddiwrnod yr ymweliad, roedd amrywiaeth o gig/pysgod a llysiau ar y fwydlen a chafodd y plant gynnig rhagor o fwyd os oeddent yn dymuno. Fodd bynnag, dywedodd y rhieni wrth AGC nad oedd yr opsiynau bwyd bob amser yn iach, ac nad oes llawer o opsiynau amgen ar gael. Mae gan y staff wybodaeth dda am anoddefiadau ac anghenion deietegol y plant, ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y gegin. Mae'r staff yn sicrhau eu bod yn golchi eu dwylo cyn helpu'r plant yn ystod amser bwyd ac maent yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo hefyd. Mae'r rhai sy'n paratoi bwyd ar gyfer y plant yn gwisgo cyfarpar diogelu personol ac mae ganddynt dystysgrif hylendid bwyd cyfredol. Mae'r staff yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau newid cewynnau er mwyn cydymffurfio â chanllawiau ar atal a rheoli heintiau. Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu ac amddiffyn plant. Maent yn ymateb i senarios diogelu posibl yn llwyddiannus. Mae'r staff yn sicrhau y caiff cofnodion digwyddiadau a damweiniau eu llofnodi ac y caiff anafiadau sy'n bodoli eisoes eu cofnodi. Mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig a hyfforddiant ar ddiogelu. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n addas.

Mae'r staff yn rhyngweithio'n dda â'r plant. Maent yn cyfarch ac yn croesawu'r plant pan fyddant yn cyrraedd sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn i'r plant. Mae'r staff yn hyrwyddo hunan-barch y plant drwy eu canmol yn rheolaidd. Er enghraifft, “*da iawn, canu da”* am ganu'n dda, a “*da iawn bawb*” am eistedd yn daclus, yn ogystal â rhoi pawen lawen. Rhoddodd aelod o'r staff ganmoliaeth arbennig i blentyn a oedd yn garedig ac wedi helpu ei ffrind i dynnu tatws o bowlen yn ystod amser cinio, gan ddweud, “*good boy, that’s very kind*.” Wrth newid cewynnau, mae'r staff yn tynnu sylw'r plant ac yn eu cadw'n hapus drwy ymgysylltu'n gadarnhaol a chanu caneuon â nhw, fel ‘Twinkle Twinkle Little Star.’ Mae'r staff yn annog y plant i fod yn ddiogel wrth fynd â'r plant i'r ysgol gan eu bod yn eu hatgoffa i afael dwylo ac yn cael sgyrsiau hyfryd â nhw. Maent yn sicrhau bod y plant yn gwisgo eu gwregysau diogelwch. Mae'r staff yn annog y plant i fod yn garedig tuag at ei gilydd pan fyddant am chwarae â'r un adnodd. Er enghraifft, maent yn dweud wrth y plant i ddefnyddio ‘dwylo caredig’ pan fyddant am chwarae â'r un beiciau ac yn eu hannog i ddefnyddio pawen lawen ar ôl hynny.

Mae'r staff yn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i anghenion datblygiadol a dewisiadau'r plant ac y gweithredir arnynt. Yn ystod amser cylch, mae'r staff yn canu caneuon Cymraeg i'r plant ac yn gofyn iddynt sut maent yn teimlo. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i ddysgu geiriau Cymraeg a Saesneg drwy ganeuon a straeon. Mae llawer o'r staff yn siarad Cymraeg gyda'r plant. Mae gan y staff wybodaeth dda am anghenion dysgu ychwanegol y plant a dealltwriaeth dda ohonynt, ac maent yn nodi anghenion pob plentyn yn unigol wrth iddo chwarae. Maent yn arsylwi ar y plant ac yn eu hasesu, a gallant nodi eu camau datblygiadol nesaf. Mae'r staff a'r arweinwyr yn sicrhau bod gwaith cynllunio 'yn y foment'

yn cael ei wneud yn barhaus, a bod y plant yn cael cyfleoedd da i ymgysylltu â diwylliant Cymru, dathliadau amlddiwylliannol, a phrofiadau.

| **Yr Amgylchedd** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae gan yr arweinwyr fesurau cynhwysfawr ac effeithiol iawn ar waith i sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau yn llawn mewn perthynas â diogelwch a lles y plant. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel iawn ac mewn cyflwr da, dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r arweinwyr yn trefnu arferion glanhau a hylendid cyson yn effeithiol. Maent yn lleihau unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch y plant yn llwyddiannus drwy gwblhau asesiadau cyffredinol ac asesiadau risg tân cynhwysfawr a manwl iawn, sy'n cael eu hadolygu, eu harchwilio a'u gweithredu'n gyson. Maent yn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn goruchwylio'r plant yn dda iawn. Mae'r arweinwyr a'r staff yn deall y gwahaniaeth rhwng risgiau derbyniol a risgiau annerbyniol yn llawn ac yn parhau i'w hasesu, yn ogystal â'r ffactorau risg/budd i'r plant sy'n bresennol.

Mae'r safle yn groesawgar, yn ysgogol ac yn hygyrch i bawb. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dan do helaeth i'r plant symud yn rhydd ac archwilio. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd bob amser yn diwallu anghenion y plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau y caiff yr ardal chwarae awyr agored ei defnyddio bob amser a'i bod yn gweithredu fel estyniad i'r amgylchedd dysgu dan do. Maent yn ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant drwy gynnig amrywiaeth rhagorol o adnoddau sy'n herio ac yn ysgogi eu chwilfrydedd a'u diddordeb yn gyson. Mae'r arweinwyr yn trefnu'r amgylchedd yn dda iawn er mwyn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae sy'n addas i'r holl ystodau oedran y gofelir amdanynt.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn gallu cael gafael yn hawdd ar amrywiaeth amrywiol a helaeth o ddodrefn, teganau a chyfarpar sy'n addas ar gyfer oedran y plant, dan do ac yn yr awyr agored, er mwyn ennyn diddordeb a dychymyg y plant. Maent yn cynnig adnoddau i ennyn chwilfrydedd y plant am y gymdeithas ehangach, gan hyrwyddo cydraddoldeb, a dysgu am ymwybyddiaeth ddiwylliannol. Er enghraifft, defnyddir doliau ac mae amrywiaeth o lyfrau Cymraeg a Saesneg ar gael. Ceir amrywiaeth ardderchog o fwydydd bywyd go iawn ac offer, dillad, powlenni, a llestri a ddefnyddir gan y gymdeithas ehangach. Ceir ardal chwarae awyr agored fawr, diddorol a chyffrous sydd mewn cyflwr da ac yn cynnig cyfleoedd heriol i'r plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael profiadau cadarnhaol ac amrywiol yn yr awyr agored ni waeth beth fo'r tywydd, ac mae'r staff yn mesur manteision cadarnhaol cymryd risgiau. Ceir ardal naturiol yn ogystal ag ardal gegin fwd enfawr, gyda rhannau rhydd i adeiladu eu modelau a strwythurau mawr eu hunain. Ceir caban celf sy'n llawn adnoddau yn yr ardal awyr agored, sy'n cynnig amrywiaeth fawr o ddeunyddiau celf i'r plant, a deunyddiau helaeth i'r plant fod yn greadigol ac archwilio gweadau a lliwiau yn annibynnol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth gref ar gyfer y lleoliad, y maent yn ei rhannu'n effeithiol ag eraill. Maent yn cynnal ac yn rhannu datganiad o ddiben cyfredol, cynhwysfawr a phroffesiynol. Mae hwn yn adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir yn gywir ac yn rhagori ar y safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'r arweinwyr yn wybodus am eu cyfrifoldebau rheoliadol. Maent yn adolygu ac yn diweddaru eu polisïau a'u gweithdrefnau yn rheolaidd ac yn sicrhau y cânt eu rhoi ar waith yn ymarferol.

Mae'r arweinwyr yn rhoi eu cynllun gweithredu cynhwysfawr ar waith ac yn ei adolygu. Maent yn ysbrydoli ac yn arwain eu timau yn effeithiol, gan sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant ac yn arwain eu prosiectau eu hunain. Er enghraifft, mae gan y staff gyfrifoldebau, fel gwella'r amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r staff wedi dewis cwblhau cyrsiau hyfforddiant gwahanol, er enghraifft hyfforddiant Cymraeg, y dull chwilfrydedd, Anghenion Dysgu Ychwanegol, y Cwricwlwm i Gymru, cynllunio ac asesu, iaith arwyddion, ac archwilio dulliau gweithredu athronwyr gofal plant gwahanol. Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg ac maent yn gweithio tuag at ddarparu'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu. Mae ganddynt weithdrefnau cadarn ar waith, ac maent yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau i amddiffyn y plant. Mae'r polisi diogelu wedi cael ei ddiwygio a'i ddiweddaru yn ystod y broses arolygu i gynnwys y canllawiau diweddaraf. Mae gan yr arweinwyr brosesau da ar waith i ddelio ag unrhyw bryderon ac maent yn cadw cofnodion os oes angen.

Mae'r arweinwyr yn rhoi hunanwerthusiadau ystyrlon ar waith yn effeithiol. Mae ganddynt gynllun gweithredu i ddatblygu'r gwasanaeth, sy'n cynnwys dogfen barhaus y maent yn ei hadolygu'n gyson. Mae'r arweinwyr wedi cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal. Maent yn gofyn am awgrymiadau gan y plant, eu rhieni/gofalwyr, ymarferwyr a phartneriaid eraill â diddordeb yn rheolaidd ac yn gweithredu ar yr awgrymiadau hyn a sylwadau cadarnhaol.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod prosesau recriwtio ar waith a bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol. Mae llesiant y staff yn dda, ac mae'r staff yn hapus iawn. Mae'r arweinwyr yn rhoi gweithdrefn sefydlu effeithiol ar waith ar gyfer pob aelod o'r staff, ac maent yn teimlo'n llawn cymhelliant. Maent yn nodi nodau hyfforddiant personol ac yn eu rhoi ar waith. Cynhelir sesiynau goruchwylio ac arfarniadau rheolaidd ac ystyrlon, sy'n ysgogi gwelliannau. Mae'r arweinwyr yn sicrhau y caiff y staff eu defnyddio'n effeithiol er mwyn bodloni cymarebau staffio a diwallu anghenion y plant. Maent yn rhoi gwybod i AGC am ddigwyddiadau a newidiadau o bwys weithiau. Fodd bynnag, mae hysbysiadau am ddigwyddiadau o bwys nad ydynt wedi cael eu rhannu ag AGC. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Mae'r Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) wedi cael ei gwblhau.

Mae'r partneriaethau yn addas. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod systemau cyfathrebu ar waith ar gyfer y rhieni. Mae ganddynt wefan ac ap ar-lein sy'n rhoi manylion am ddamweiniau a digwyddiadau'r plant, lluniau, arsylwadau, a gweithgareddau. Mae gan yr arweinwyr a'r staff gysylltiadau cryf iawn ag amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol, er enghraifft y tîm cynhwysiant Anghenion Dysgu Ychwanegol, yr awdurdod lleol a Dechrau'n Deg. Maent yn trefnu ymweliadau â'r ardal leol ac yn cefnogi'r gymuned leol ac elusennau. Dywedodd y rhieni wrthym fod eu plant yn hapus pan fyddant yn y lleoliad. Byddent yn gwerthfawrogi pe bai opsiynau bwyd amgen yn cael eu cynnig a phe baent yn cael adborth gwell am weithgareddau'r plant, ac nid ydynt yn gwybod sut i roi gwybod am bryderon os bydd ganddynt unrhyw rai. Mae rhieni eraill yn credu bod y lleoliad yn rhagorol ac yn dweud bod eu plant wrth eu bodd yn mynd yno, gan eu bod yn meithrin cydberthnasau cryf â'r plant a'r staff.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 31 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau ei fod yn rhoi gwybod i Arolygiaeth Gofal Cymru am bob digwyddiad o bwys mewn modd amserol. | Newydd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 4 - Diwallu anghenion unigol | Sicrhau bod dewisiadau bwyd amgen ar gael i'r plant |
| Safon 6 - Gweithio mewn partneriaeth â rhieni | Gwella'r wybodaeth a rennir â'r rhieni mewn perthynas â pholisïau a phrofiadau dyddiol y plant |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/07/2024